



Beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)?

Cyrrff rhanbarthol yw CBCau sydd wedi cael eu sefydlu yng Nghymru i wella ffyniant economaidd drwy'r holl ardaloedd y maent yn eu cwmpasu er budd preswylwyr a busnesau.

Yma yn Ne-orllewin Cymru, mae ein CBC (CBCDOC) yn cwmpasu Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. O ran rhai swyddogaethau cynllunio datblygu, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn aelodau.

Mae CBCDOC yn gweithio i sicrhau cydweddiad rhanbarthol mewn nifer o sectorau allweddol i wneud yn fawr o gryfderau a chyfleoedd sy'n gyffredin iddynt. Bydd hyn yn helpu i greu rhagor o swyddi yn Ne-orllewin Cymru wrth helpu'r rhanbarth ymhellach drwy dorri ei ôl troed carbon a denu mwy o fuddsoddiad yn y dyfodol.

Mae CBCDOC, a sefydlwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, yn cynnwys Arweinwyr Cynghorau Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ogystal ag uwch-gynrychiolwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro.

Fe cyflwynwyd CBCDOC trwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae'n un o bedwar corff o'r fath yng Nghymru.

Beth rydym am ei gyflawni?

Mae CBCDOC yn bwriadu cyflwyno'i weledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth cryf sydd eisoes ar waith i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol gan gynnwys:

- Datblygu'r cynllunio strategol rhanbarthol ar gyfer trafndiaeth ymhellach;
- Cyflwyno dyheadau rhanbarthol ar gyfer datblygiad ynni ac economaidd, a
- Paratodau ar gyfer cynllun datblygu strategol cyntaf erioed y rhanbarth.

Mae tri amcan lles wedi'u sefydlu i arwain gwaith cychwynnol CBCDOC, er y caiff y rhain eu hadolygu wrth i'w waith aeddfedu i sicrhau eu bod yn barhaol addas i'r diben.



Beth yw'r cynllun corfforaethol drafft?

Mae'r cynllun, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn cynnwys gwybodaeth am weledigaeth De-orllewin Cymru ar gyfer 2035, tri amcan lles CBCDOC a'r sectorau y mae CBCDOC yn canolbwyntio arnynt.

Unwaith y caiff ei gymeradwyo, bydd y cynllun yn arwain gwaith CBCDOC ac yn galluogi i gynydd gael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd.

Pam y dylwn i roi adborth?

Mae gennym ni i gyd ddi-ddordeb cyffredin mewn gwneud ein rhanbarth yn fwy mentrus, uchelgeisiol a chynaliadwy. Mae gwireddu'r nodau hyn yn bwysig i bobl nawr, wrth helpu hefyd i adael etifeddiaeth tymor hir cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sut gallaf fynegi fy marn?

Llenwch yr holiadur ar-lein sydd ar gael [yma](#) erbyn y dyddiad cau sef 23:59 ar Dydd Mercher 8 Mawrth 2023.

Gallwch weld y Cynllun Ddrafft [yma](#).

Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur neu ffôn clyfar, gallwch ymweld â'ch llyfrgell leol neu ganolfannau gwasanaethau cwsmeriaid y cyngor i ddefnyddio cyfrifiaduron y gall y cyhoedd eu defnyddio am ddim. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am amserau agor ar gyfer yr holl lyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaethau cwsmeriaid yn eich ardal ar wefan eich awdurdod lleol.

Gallwch cysylltwch â ni: policy@npt.gov.uk neu 01639 685460.

Camau Nesaf

Caiff yr holl farnau a gyflwynir yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad eu hadolygu i helpu i lywio adroddiad am yr ymgynghoriad. Yna bydd aelodau CBCDOC yn ystyried yr adroddiad hwn pan fydd yn cwrdd i benderfynu ar y posibilrwydd o gymeradwyo'r cynllun corfforaethol.